Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Gyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir, ar Nos Fercher y 12fed o Hydref 2011 am 7.45yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Julia Jones, y Dirprwy Faer y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Ros Bellamy, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Charlotte Leadbeater, y Cyng. David Williams, y Cyng. Roy Davies
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Fran Murphy, y Cyng. Christopher Parish

Cof 180/ Hyd /11 I ystyried arsylwadau'r Cyngor Tref ar Gais Gynllunio E/25041 gan Sainsbury's i adeiladu archfarchnad.

Dywedodd y Maer y bu'r Cyfarfod Cyhoeddus yn ddigwyddiad llwyddiannus, a fynychwyd yn dda, gyda dros 160 o bobl yn bresennol. Ychwanegodd y Cyng. Julia Jones fod y cyflwyniadau gan Sainsbury's a Save Llandeilo's Future wedi bod yn broffesiynol iawn a'u bod wedi darparu'r trigolion lleol gyda'r mwyafrif o ffeithiau'r cais.
Cafodd y safbwyntiau a fynegwyd gan y llawr eu cofnodi a'u darllen allan yn y cyfarfod. Fe wnaethant ddynodi bod barnau'r bobl wedi eu hollti mewn perthynas â'r cais.
Darllenodd y Clerc adroddiadau a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr canlynol:-
Y Cyng. Roy Davies, y Cyng. David Williams, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Fran Murphy.
Yna, agorodd y Maer y llawr i'r Cynghorwyr i wneud sylwadau ychwanegol ar y cais.
Fe wnaeth y Maer atgoffa'r Cynghorwyr mai mater cynllunio oedd hwn ac y dylai'r Cyngor ei ystyried felly ac na ddylid ei farnu ar seiliau eraill.
Dywedodd y Cyng. Ros Bellamy, yn ei barn hi, bod y cais yn mynd yn groes i ganllawiau CDLl a CDU.
Roedd y Cynghorwyr yn poeni nad yw Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Gâr yn ystyried materion cynllunio yn Llandeilo yn gyfannol. Roedd effeithiau cyfun archfarchnad arfaethedig Sainsbury's, yr ysgol uwchradd newydd sy'n arfaethedig, datblygiad Preswyl Chwarter y Gogledd sy'n arfaethedig, tagfeydd ar y ffyrdd a'r llygredd aer dilynol i gyd yn pwyntio at yr angen enbyd am ffordd osgoi. Dylai effeithiau cyffredinol y cynigion yma gael eu hystyried gan Adran Blaen Gynllunio CSG, cyn bod ceisiadau unigol yn cael eu penderfynu.
Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod adroddiad yn cael ei baratoi ar arsylwadau'r Cyngor ar y cais. Byddai'r adroddiad yn cael ei ysgrifennu gan y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Roy Davies, y Cyng. David Williams a'r Cyng. Fran Murphy. Byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar y 26ain o Hydref 2011.
Roedd pawb o blaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15yh.